

Digimap for Schools

Prydain Fawr Eithafol

Paula Owens

Adnodd addysgu Daearyddiaeth Cyfnod Allweddol 2



Dyma un o gyfres o adnoddau dysgu i'w defnyddio gyda Digimap for Schools. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Adnoddau Daeryddiaeth *Digimap for Schools*

Canllaw ar gyfer athrawon yw'r adnoddau hyn er mwyn rhoi gwybodaeth i'r dosbarth cyfan neu fyfyrwyr unigol yn uniongyrchol fel y bo'n briodol. Gallwch addasu'r llu o syniadau sydd ym mhob gweithgaredd i weddu eich dosbarth a'r disgyblion. Mae rhai adnoddau'n cynnwys dalenni gwaith i'w rhoi i'r disgyblion yn uniongyrchol.

Teitl: Prydain Fawr Eithafol

Lefel	Cyd-destun	Lleoliad
Cyfnod Allweddol 2	Ffeithiau am Brydain Fawr	Amrywiol

Gwybodaeth	Darllen gwybodaeth ar gyfer map/lleoli manau/ychwanegu dynodwyr a labeli
Cysylltiadau Cwricwlwm (Lloegr)	Defnyddio wyth pwynt cwmpawd, cyfeirnodau grid pedwar digid, symbolau ac allwedd (gan gynnwys defnyddio mapiau'r Arolwg Ordnans) i gynyddu gwybodaeth am y Deyrnas Unedig
Cysylltiadau Cwricwlwm (Cymru)	Defnyddio mapiau i amlygu a lleoli manau ac amgylcheddau. Defnyddio mapiau, delweddau a TGCh i ganfod a chyflwyno gwybodaeth am leoliadau.
Cwricwlwm Rhagoriaeth yr Alban	Deilliannau Astudiaethau Cymdeithasol: Pobl, Lle ac Amgylchedd: SOC 2-14a

Gweithgaredd

Ystyried datganiadau sy'n cynnwys ffeithiau 'eithafol' am Brydain Fawr, canfod a mapio lleoliadau, ac ymchwilio i ffeithiau 'eithafol' ychwanegol.

Cyflwyniad

Gofynnwch rai cwestiynau i ddisgyblion am eithafion daeryddol ym Mhrydain Fawr megis:

Pa fynydd yw'r uchaf ym Mhrydain Fawr a ble mae ef?

Ble ym Mhrydain Fawr y mae'r tymheredd isaf wedi'i gofnodi?

I wneud y gweithgaredd hwn, mae angen i ddisgyblion gymathu atebion a datganiadau anghyflawn drwy ddefnyddio sgiliau rhesymu ac ymchwilio. Mae'r mapiau yn *Digimap for Schools* yn rhoi gwybodaeth am Brydain Fawr ar amrywiaeth o raddfeydd. Gall ymchwilio i wybodaeth gan ddefnyddio mapiau gynorthwyo gwaith archwilio annibynnol a gwella gwybodaeth graidd.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Prif Weithgaredd

Trafodwch gyda'r disgyblion beth allai rhywbeth 'eithafol' ei olygu: hiraf, uchaf, prysuraf, cyflymaf, oeraf, ac ati, a cheisiwch weld a ydynt yn gallu canfod unrhyw 'ffeithiau eithafol' am Brydain Fawr. Trafodwch bwysigrwydd lleoliad a sut mae mapiau'n gallu rhoi gwybodaeth i ni. Dywedwch wrth y disgyblion mai eu tasg yw cymathu rhestr o atebion â rhestr o ddatganiadau anghyflawn am 'ffeithiau eithafol' ar ddalen waith y gweithgaredd.

Gall disgyblion ddefnyddio *Digimap for Schools* i'w helpu i gymathu'r atebion cywir. Gallant hefyd wneud ymchwil ychwanegol er mwyn eu helpu i ganfod rhai 'ffeithiau eithafol' eu hunain. Ar ôl gorffen, bydd yn rhaid i ddisgyblion ddewis eu hoff ffeithiau eithafol ac ychwanegu lleoliadau ar fap.

Tasgau

1. Agorwch Digimap for Schools. Ceisiwch gymathu'r Geiriau cywir â'r datganiadau anghyflawn ar ddalen weithgareddau 'Prydain Fawr Eithafol'. Defnyddiwch y mapiau i'ch helpu.
2. Dewiswch rai o'ch hoff 'ffeithiau eithafol' a mapiwch eu lleoliad. Defnyddiwch y teclyn Chwilio i ganfod y lleoliad a dewiswch 'Add marker' (Ychwanegu dynodwr) o'r bar anodi. Wedyn, dewiswch 'Place label' (Ychwanegu label) gan ychwanegu testun fel 'tymheredd oeraf'. Fel arall, gallwch ychwanegu rhifau er mwyn cysylltu lleoliadau â'r datganiadau sydd wedi'u rhifo ar y ddalen.

Mynd gam ymhellach

Beth am wneud casgliad o 'ffeithiau eithafol' am thema benodol fel y 'tywydd'?

Dolenni ar y we

Ewch i 'Atebion Prydain Fawr Eithafol' isod i weld y cyfeiriadau a ddefnyddiwyd ar y we i roi pob ateb.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Prydain Fawr Eithafol: Atebion

1. **Ben Nevis**, yn yr Alban, yw'r mynydd uchaf ym Mhrydain Fawr a'r Deyrnas Unedig. Mae ym mhen gorllewinol Mynyddoedd y Grampian yn ardal Lochaber yn yr Alban, ger tref Fort William. <http://ben-nevis.com/index.php>
2. **Afon Hafren** yw'r afon hiraf ym Mhrydain Fawr. Mae tua 354 km o hyd. http://en.wikipedia.org/wiki/River_Severn
3. O ran arwynebedd, **Loch Lomond** yw'r llyn mwyaf ym Mhrydain Fawr. Mae'n 39 km o hyd a rhwng 1.21 km ac 8 km o led. http://en.wikipedia.org/wiki/Loch_Lomond
4. **Loch Ness** yw'r llyn mwyaf ym Mhrydain Fawr. Mae'r llyn dŵr croyw mawr a dwfn hwn yn Ucheldiroedd yr Alban yn ymestyn tua 37 km (23 milltir) i'r de-orllewin o Inverness. 56.4 km² yw arwynebedd Loch Ness, sy'n golygu ei fod yr ail llyn mwyaf yn yr Alban o ran arwynebedd (Loch Lomond yw'r mwyaf), ond Loch Ness yw'r mwyaf o ran cyfaint gan ei fod mor ddwfn. Mae mwy o ddŵr croyw ynddo na'r hyn sydd yn holl lynnoedd Cymru a Lloegr gyda'i gilydd. http://en.wikipedia.org/wiki/Loch_Ness
5. **Coedwig Galloway** yw parc coedwig mwyaf Prydain (tri chan milltir sgwâr). Coedwig Kielder yw'r goedwig fwyaf yn Lloegr. <http://www.gallowayforestpark.com/>
6. **Loch Morar** yw'r llyn neu'r 'loch' dŵr croyw dyfnaf ym Mhrydain Fawr ac Ynysoedd Prydain (Loch Mhòrair yw ei enw yng Ngaeleg yr Alban). Mae'r llyn dŵr croyw hwn ym Morar, Lochaber, yn Ucheldir yr Alban. Mae hyd at 310 metr o ddyfnder. <http://www.lochmorar.org.uk/>
7. Y **Peak Cavern**, yn Swydd Derby, yw'r fynedfa ogof naturiol fwyaf ym Mhrydain Fawr ac Ynysoedd Prydain. http://www.castleton.co.uk/caverns/peak_cavern.aspx
8. Teithiodd y trênn cyflymaf ym Mhrydain Fawr ar linell yr Eurostar o **Ashford**. Trênn Dosbarth 373/2 'Eurostar Rhanbarthol' oedd yr un a ddewiswyd ar gyfer yr ymgais, ac fe'i paratowyd yn arbennig gydag offer monitro a chyfleuster i deithio deg y cant yn 'gyflymach nag arfer'. Alan Pears oedd yn gyrru'r trênn, a dim ond tua 70 o newyddiadurwyr a pheirianwyr oedd arno pan adawodd Ashford i gyrraedd cyflymder o 208 m.y.a. <http://sciencetoday.com/technology/transport/208-mph-the-fastest-train-ever-to-run-in-great-britain/#ixzz1ks19e9ZX> a <http://news.bbc.co.uk/1/hi/england/kent/3108973.stm>
9. **Porthladd Felixstowe** yw porthladd amlwytho mwyaf a phrysura Prydain Fawr a'r Deyrnas Unedig. Mae hefyd yn un o'r rhai mwyaf yn Ewrop. <http://www.portoffelixstowe.co.uk/#/port>
10. **Out Stack**, Ynysoedd Shetland, yw'r man mwyaf gogleddol. http://en.wikipedia.org/wiki/Extreme_points_of_the_United_Kingdom
11. **St Agnes**, ar Ynysoedd Sili, yw'r anheddiad mwyaf deheuol. http://en.wikipedia.org/wiki/Extreme_points_of_the_United_Kingdom
12. **Lowestoft Ness**, Suffolk, yw'r man mwyaf dwyreiniol. http://en.wikipedia.org/wiki/Extreme_points_of_the_United_Kingdom

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

13. Y tymheredd oeraf erioed a gofnodwyd yw 27.2 gradd ganradd o dan y rhewbwynt yn **Braemar**, Swydd Aberdeen yn yr Alban ar 10 Ionawr 1982.
<http://www.metoffice.gov.uk/climate/uk/extremes/>
14. **Parc Cenedlaethol Cairngorms**, yr Alban, yw'r Parc Cenedlaethol mwyaf yn y Deyrnas Unedig. Mae'n 4528 km sgwâr o ran ardal, sydd ddwywaith maint Ardal y Llynnoedd a Loch Lomond a Trossachs. <http://www.cairngorms.co.uk/the-park/facts-figures/>

Cofiwch mai pwnc sy'n trin a thrafod y byd go iawn yw Daearyddiaeth a'i fod yn newid drwy'r amser. Bydd rhai o'r ffeithiau hyn yn newid dros amser. Ym mis Awst 2013 y cafodd y rhain eu gwirio ddiwethaf.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013

Mae'r gwaith hwn o dan Drwydded Anfasnachol *Creative Commons Attribution*



D10877_cynradd
f1.0 Awst 2013

EDINA

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Prydain Fawr Eithafol – Gweithgaredd

A allwch gymathu'r atebion isod i gwblhau'r ffeithiau am 'Brydain Fawr Eithafol'? Ar ôl gorffen, defnyddiwch *Digimap for Schools* i wneud map sy'n dangos lleoliadau rhai o'r ffeithiau 'eithafol'. A allwch ychwanegu rhai ffeithiau eich hun?

1. _____ yw'r mynydd uchaf ym Mhrydain Fawr.
2. _____ yw'r afon hiraf ym Mhrydain Fawr.
3. O ran arwynebedd, _____ yw'r llyn neu'r loch mwyaf ym Mhrydain Fawr.
4. O ran cyfaint, _____ yw'r llyn neu'r loch mwyaf ym Mhrydain Fawr.
5. _____ yw'r parc coedwig mwyaf ym Mhrydain Fawr.
6. _____ yw'r llyn neu'r loch dŵr croyw dyfnaf ym Mhrydain Fawr.
7. Yn _____ mae mynedfa ogof naturiol fwyaf ym Mhrydain Fawr.
8. _____ oedd man cychwyn y trên cyflymaf i redeg ym Mhrydain Fawr.
9. _____ yw porthladd amlwytho fwyaf Prydain Fawr.
10. _____ yw'r man mwyaf gogleddol ym Mhrydain Fawr.
11. _____ yw'r anheddiad mwyaf deheuol ym Mhrydain Fawr.
12. _____ yw'r man mwyaf dwyreiniol ym Mhrydain Fawr.
13. Cofnodwyd y tymheredd oeraf erioed yn _____
14. _____ yw'r Parc Cenedlaethol mwyaf ym Mhrydain Fawr.

Out Stack, Ynysoedd Shetland

Porthladd Felixstowe

Peak Cavern, Swydd Derby

Loch Morar, yr Alban

Ben Nevis, yr Alban

Gorsaf Ashford

Loch Ness, yr Alban

Loch Lomond, yr Alban

Coedwig Galloway, yr Alban

St Agnes, Ynysoedd Sili

Lowestoft Ness, Suffolk,

Cairngorms, yr Alban

Braemar, yr Alban

Afon Hafren